

COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 4ydd o FEHEFIN 2018 YN YSTAFELL Y BAND, CRWBIN AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Geoff Hewitt (Cadeirydd yn y gadair), Ian Evans, Linda Williams, Heddwyn Jones, Tyssul Evans, Tracey James, Carol Williams, Aled Williams, Meic Bowen, Geraint Rosser, Margaret Rees a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Alan Lewis

Materion Personol:-

1977 Cyn dechrau'r Cyfarfod llofnodwyd y ffurflenni pwrpasol yn datgan bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn derbyn eu swyddi.

1978 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

1979 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod misol diwethaf ar 14/05/2018 fel rhai cywir.

1980 Materion yn codi.

Tud 1..Cofnod Rhif 1961 - Safle Ail-gylchu Meinciau - Arhoswn am adroddiad oddiwrth Clwb y Meinciau am ganiatâd i osod Camera ar y safle.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1981 Sioe Bancffosfelen – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £200.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1982 Cyngor Sir Gar - Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth - Ffioedd am Gladdu Plant - Nodwyd y Llythyr.

1983 Grŵp Hanes Pontiets a'r Cylch - Gwahoddiad i Ddydd Agored - 09/06/18 - Nodwyd y gwahoddiad gyda diolch.

Ceisiadau Cynllunio

1984 Ceisiadau Cynllunio

- a) Cais Rhif W/37242 & W/37243 – Chris Miller – Melin Tryscyrch, Pontantwn- Newid i Dy Anedd- Dim Gwrthwynebiad.
- b) Cais i Enwi a Rhifo Strydoedd – Clos y Dwr, Pontiets (3 Plot) – Dim Gwrthwynebiad.
- c) Cais Rhif W/36851/W/36861 -Gower Quarrying Ltd. - Cwar Blaenyfan, Meinciau - Rhyddhau Amodau - Penderfynwyd ein bod yn gofyn am y canlynol :-
 1. Peiriant Monitro ar y safle, pob dydd yn ystod oriau gwaith,
 2. Cyfarfod rheolaidd rhwng y Cwmni a'r Cyngor Cymuned.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

1985 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mai 2018. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

1986 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a) Cyflog y Clerc - £402.71 (Mis Mai)
- b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mai)
- c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Mai)
- ch) HMRC (Treth)- £80.40 (Mis Mai)
- d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mai)
- dd) BT – Ffon y Swyddfa - £46.86 (Mis Mai)
- e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mai)- £182.00
- f) Inc i'r Llungopiwr - £21.96
- ff) EDF - Trydan yn Doiledau'r Meinciau (Mis Mai) - £14.06
- g) Roger Thomas – Cyfrifydd - £150.00

Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 1)

1987 Cynigwyd gan Tyssul Evans ac eiliwyd gan Linda Williams ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 1) am y flwyddyn 2017-2018.

Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2)

1988 Cynigwyd gan Ian Evans ac eiliwyd gan Heddwyn Jones ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2) am y flwyddyn 2017-2018.

Cyfrifon y Cyngor a Datganiadau Cyfrifyddu 2017 - 2018

1989 Wedi darllen llythyr oddiwrth Cyfrifydd y Cyngor, Mr Roger Thomas, cynigwyd gan Heddwyn Jones ac eiliwyd gan Margaret Rees ein bod yn derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn 2017 – 2018 fel y cyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith yn y mater hwn.

Menter Llwybrau Cyhoeddus

1990 Yn dilyn adroddiad gan y Clerc penderfynwyd galw cyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid yn Ffestri Nasareth Pontiets ar 18/06/18 i drafod yr adroddiad ymhellach.

Cysgodfa Bys yng Ngharwe

1991 Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd na allwn symud y Gysgodfa Bys sydd ochr draw i Maesywern, Carwe (tu allan i safle Mr Nick Rees) gan ei bod yn cael ei defnyddio yn rheolaidd gan y cyhoedd, ond nid ydym yn gwrthwynebu Mr Rees yn symud y ffens sydd tu ôl i'r Gysgodfa. Fe fydd y Cyngor yn trefnu ail-baentio'r Gysgodfa cyn bo hir.

Pedair Heol

1992 Wedi derbyn cais gan Rob a Helen Evers o Bedair Heol, penderfynwyd edrych am focsys Blodau (hyd at gost o £150 yr un) ac awdurdodwyd y Cadeirydd, Is-gadeirydd a'r Clerc yn y mater hwn.

Yswiriant y Cyngor

1993 Awdurdodwyd y Clerc i dalu Cwmni Zurich am Yswiriant y Cyngor y swm o £1160.79 am y flwyddyn sy'n rhedeg o 13/07/2018 hyd at 12/07/2019.

Materion Cynghorwyr

1994 **Tyssul** - Paratoi llythyr a fydd yn addas i'w dosbarthu dros godi Safle Bys ger Bryngwili Bancffosfelen.

1995 **Margaret** – Angen arwyddion 'Dim Sbwriel' i'w gosod yng Nghrwbini.

- 1996 Ian - a) Cysylltu eto a'r Cyngor Sir ynglŷn â'r gwter ym Marc Carwe
b) Cysylltu â'r Cyngor Sir ynglŷn ag arwydd BrynSeilo/Ger Tŷ Mawr
c) Pren yn ishe ar y bont ym Mharc y Llong.

**Cyfarfod nesaf:- 2 o Orffennaf 2018 yn Festri Salem, Pedair Heol am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)**

Llofnodwyd..... **CADEIRYDD**

Dyddiad.....